OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2912

# Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005

## RHAN 5

Deiliadaeth Swyddi a Chymwysterau

**Ymddiswyddo**

**22.**—(1) Caiff unrhyw aelod o gorff llywodraethu dros dro ymddiswyddo o'i swydd llywodraethwr drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc corff llywodraethu dros dro yr ysgol.

(2) Caiff llywodraethwr sefydledig dros dro *ex officio* ymddiswyddo fel llywodraethwr dros dro naill ai'n barhaol neu dros dro ond ni fydd ei ymddiswyddiad yn rhagfarnu swydd llywodraethwr dros dro ei olynydd yn y swydd y mae'r swydd llywodraethwr dros dro *ex officio* yn deillio ohoni.

(3) Caiff y pennaeth dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl unrhyw bryd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu dros dro.

**Diswyddo**

**23.**—(1) Caniateir i unrhyw lywodraethwr dros dro ysgol newydd gael ei ddiswyddo gan y person neu'r personau a'i penododd

(2) Yn achos diswyddo llywodraethwr dros dro a grybwyllir yn rheoliad 24(1), rhaid i'r corff llywodraethu ddilyn y weithdrefn a nodir yn y rheoliad hwnnw, ac ym mhob achos arall rhaid i'r person sy'n diswyddo'r llywodraethwr dros dro roi hysbysiad ysgrifenedig ynglŷn â hynny i glerc y corff llywodraethu dros dro ac i'r llywodraethwr sy'n cael ei ddiswyddo fel hyn.

**Y weithdrefn ar gyfer diswyddo llywodraethwyr dros dro gan y corff llywodraethu dros dro**

**24.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â diswyddo:

(a) rhiant-lywodraethwr dros dro sydd wedi'i benodi gan y corff llywodraethu dros dro,

(b) athro-lywodraethwr dros dro sydd wedi'i benodi gan y corff llywodraethu dros dro, neu

(c) noddwr-lywodraethwr dros dro.

(2) Ni fydd penderfyniad i ddiswyddo llywodraethwr dros dro sy'n cael ei basio yn un o gyfarfodydd y corff llywodraethu dros dro yn effeithiol oni bai—

(a) bod y llywodraethwr neu'r llywodraethwyr dros dro sy'n cynnig y dylid ei ddiswyddo yn datgan yn y cyfarfod hwnnw eu rhesymau dros wneud hynny a bod y llywodraethwr y bwriedir ei ddiswyddo'n cael cyfle i wneud datganiad mewn ymateb, a hynny cyn i'r corff llywodraethu dros dro benderfynu diswyddo'r llywodraethwr dros dro;

(b) bod mater diswyddo'r llywodraethwr dros dro wedi'i bennu fel eitem o fusnes ar agenda'r cyfarfod.

(3) Ar ôl i benderfyniad i ddiswyddo llywodraethwr gael ei basio, rhaid i'r corff llywodraethu dros dro roi gwybod mewn ysgrifen i'r person sydd wedi'i ddiswyddo am y rhesymau dros y diswyddo.

### Cymwysterau ac anghymhwyso

**25.** Mae Atodlen 5 i'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys, yn ddarostyngedig i'r addasiadau cyffredinol er mwyn nodi o dan ba amgylchiadau y mae person yn gymwys neu'n anghymwys i ddal swydd neu i barhau i'w dal, neu i gael ei benodi neu ei enwebu fel llywodraethwr dros dro ysgol newydd.

### Treuliau

**26.** Os oes corff llywodraethu dros dro wedi'i gyfansoddi ar gyfer ysgol newydd mae'r awdurdod addysg lleol o dan yr un ddyletswydd i dalu'r treuliau sy'n codi mewn perthynas â'r corff llywodraethu dros dro â phe bai'r cynigion perthnasol wedi'u rhoi ar waith a phe bai'r corff llywodraethu dros dro yn gorff llywodraethu yr ysgol(**1**).

### Gwybodaeth esboniadol

**27.** Rhaid i'r awdurdod addysg lleol sicrhau bod aelodau corff llywodraethu dros dro ysgol newydd, wrth eu penodi, yn cael (yn ddi-dâl) unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod yn credu bod arnynt ei hangen er mwyn galluogi'r corff llywodraethu dros dro i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

(**1**) Gweler Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005, O.S. 2005/2915 (Cy.212).